NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Abladiad laser drwy'r wrethra ar gyfer canser y bledren nad yw'n ymwthio i'r cyhyrau sydd wedi dychwelyd

24 Gorffennaf 2019

Nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr ynghylch y driniaeth hon, ond nid oes llawer o dystiolaeth dda ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio ar gyfer canser y bledren nad yw'n ymwthio i'r cyhyrau sydd wedi dychwelyd. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny oherwydd y pryderon ynghylch ei heffeithiau hirdymor.

Mae canser y bledren nad yw'n ymwthio i'r cyhyrau yn cynnwys tyfiannau bach sydd ond yn bresennol yn leinin y bledren. Nid yw'r canser wedi tyfu'n ddyfnach i mewn i haen y cyhyrau. Yn ystod y driniaeth hon, rhoddir tiwb â chamera (systosgop) i mewn i'r bledren drwy'r bibell sy'n cario wrin allan o'r corff o'r bledren (wrethra). Wedyn defnyddir laser o fewn y systosgop i ddinistrio'r celloedd canser.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau â chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-7981-3



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.